POLISI TOILEDAU YSGOL

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol :

Llofnod y Cadeirydd: …… Dyddiad: ……

Llofnod y Pennaeth: …….…….. Dyddiad: ……

Dyddiad Adolygu: ……

Nod:

- Galluogi disgyblion, staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob disgybl.
- Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da drwy'r ysgol.
- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan bawb, boed yn rheolwyr yr ysgol, staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.
- Sicrhau bod yr holl doiledau ar agor ac ar gael i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr drwy gydol y diwrnod ysgol. Er y gall disgyblion ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn ystod amserau egwyl ac amser cinio os bydd angen, byddwn yn sicrhau y gall disgyblion eu defnyddio unrhyw bryd. Rydyn ni'n cydnabod bod anghenion toiled disgyblion yn amrywio'n fawr ac nad ydyn nhw'n cydymffurfio ag amserlenni caeth. Rydyn ni'n cydnabod bod rhai disgyblion yn teimlo'n anghyfforddus yn mynd i'r toiled pan fydd pobl eraill o amgylch a byddwn ni'n caniatau iddyn nhw adael y dosbarth i ddefnyddio'r toiled.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwyliedig, gan gynnwys disgyblion ag anableddau ac anghenion ychwanegol.
- Sicrhau bod y toiledau yn diwallu anghenion pob disgybl a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.
- Sicrhau bod y toiledau'n darparu preifatrwydd i ddefnyddwyr.
- Sicrhau bod gan bob un o'r toiledau gyflenwad da a gynhelir yn briodol o ddŵr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.
- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf yn y toiled staff / cyhoeddus ac yn un o giwbiclau'r merched yn y toiledau ar gyfer disgyblion CA2. Dylid sicrhau bod yr unedau gwaredu yn y toiledau yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.
- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwylio ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ran y ddarpariaeth a glendid.

- Gwrando ar farn ac unrhyw bryderon sydd ynglŷn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r disgyblion ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac ymateb o ddifrif i'r rhain a delio gydag unrhyw broblemau a amlygir gan ddisgyblion ac eraill yn brydlon.
- Ymgynghori â'r disgyblion a'u cynnwys yn y gwaith o reoli'r toiledau.
- Annog disgyblion i barchu'r toiledau (drwy gyfrwng y Cyngor Ysgol, gwersi Datblygiad Personol a Chymdeithasol/ABCh, yn ystod cyfnodau trafod â'r athro/athrawes dosbarth neu wasanaethau ysgol).
- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd yng nghyfarfodydd cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

Rôl y Corff Llywodraethol:

Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau ysgolion o ran rheoli iechyd a diogelwch. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu datganiad byr ar gyfer Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr yr ysgol am y cyfleusterau toiled a ddarperir i ddysgwyr cofrestredig yr ysgol a'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn lân.

SCHOOL TOILETS POLICY

Policy adopted by Governing Body :

Signed by Chairperson: …….. Date: ……

Signed by Headteacher: …….. Date: ……

Review Date: ……

Aim:

- Enable pupils, staff and visitors to use the toilet facilities throughout the day in order to promote the health, well-being and learning opportunities for every pupil.

- Provide good quality toilet facilities throughout the school.

- Ensure that this policy is accepted and maintained by all, whether school mangers, staff, pupils, governors, parents/carers, site manager, cleaning staff and support staff.

- Ensure that the toilets are open and available to pupils, staff and visitors throughout the school day. Although pupils can use the toilet facilities during break-times and lunch-times if needed, we will ensure that pupils can use them at any time. We acknowledge that pupils' toilet needs vary greatly and they do not comply with restricted timetables. We acknowledge that some pupils feel uncomfortable going to the toilet when other people are around and we will allow them to leave the classroom to use the toilet.

- Ensure that the toilets and wash rooms are appropriate for the variety of expected users, including pupils with disabilities and additional needs.

- Ensure that the toilets meets the needs of all pupils and that these needs are met in a sensitive and appropriate manner.

- Ensure that the toilets provide privacy for users.

- Ensure that every toilet has a good maintained supply of hot and cold water, liquid soap, hand drying facilities and toilet paper placed at a convenient height.

- Ensure that there are sanitary products disposal units in the staff / public toilet and in one of the girls' cubicles in the KS2 toilets. The disposal units in the toilets to be serviced regularly.

- Operate and maintain an effective toilet cleaning, supervision and inspection system in order to ensure an appropriate standard in terms of the provision and hygiene.

- Listen to opinions and any concerns regarding the toilet provision and access issues (ensuring an easy to follow procedure for pupils to report any weaknesses or problems) and respond seriously to these and deal punctually with any problems highlighted by pupils and others.

- Actively consult with pupils and include them in the work of managing the toilets.

- Encourage pupils to respect the toilets (through the school council, personal and social development/PSE lessons, during discussion periods with the class teacher or school assemblies).

- Regularly include matters in relation to managing toilets in school council, staff, parents/carers and governors' meetings.

Role of the Governing Body:

The Governing Body is responsible for monitoring schools' arrangements for managing health and safety. This responsibility includes providing a short statement in the Annual Governors' Report on toilet facilities provided for the school's registered learners and the arrangements in place to ensure that they are clean.